**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol y Clogau**

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 1** |
| CA1<br>Erbyn diwedd Bl2 gall y plant drafod rhai dathliadau Cristnogol, megis Diolchgarwch, Y Nadolig Y pasg yn dda iawn.<br>Gall plant CA1 ddisgrifio patrwm addoliad yr Hindw, gan gyfeirio at yr arferion a'r arteffactau,. Atgyfnerthwyd dealltwriaeth y plant drwy fynd ar ymweliad i arsylwi ar Hindw yn addoli.<br>Gall plant ymdrin â thasgau 'ymchwilio' yn hyderus ac aeddfed.<br>CA2<br>Maent yn arddangos gwybodaeth dda iawn am Gristnogaeth a chrefyddau eraill.<br>Gallant ymateb i gysyniadau crefyddol, e.e. 'Y Creu' ar ffurff cerddoriaeth a phaentiadau.<br>Gall y plant hynaf esbonio llawer o'r nodweddion sydd yn perthyn i grefyddau amrywiol.<br><br>Mae AaGD yn rhan allweddol o wersi'r ysgol ac mae'r dull yma o weithio yn arwain at godi safonau.<br>Mae holl blant yr ysgol yn arddangos consyrn am eraill, a thrwy ein cyswllt ag ysgol Shreekandepur yn Nepal, maent yn gyfarwydd a'r syniad o berthyn i deulu byd eang. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Prynu mwy o adnoddau<br>Dyfnhau'r gwersi i ymdrin â chrefydd gyda llai o bwyslais ar ddysgu ffeithiau |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 1** |
| Nodir yn adroddiad arolwg haf 2010:<br>- fod 'partneriaeth ragorol â rhieni'<br>- fod 'safonau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol ar draws yr ysgol'<br>- fod 'ethos gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol'<br>- fod 'gan y disgyblion ymwybyddiaetho faterion cyfle cyfartal a dinasyddiaeth fyd eang'<br>- fod 'disgyblion yn dangos empathi at eraill drwy gasglu arian yn rheolaidd at achosion da'<br>- 'cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn i ddarparu addoliad ar y cyd yn ddyddiol ar gyfer y plant a disgyblion'<br>- 'mae cysylltiadau helaeth â'r gymuned leol' |

| |
|---|
| - ‘dysgant yn fanwl am wahanol grefyddau’r byd’<br>- ‘ fe bwysleisir parch at eraill yn gyson.’ |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Annog plant i fod yn fwyfwy cyfrifol am baratoi a chyflwyno yn ein cyfnodau addoli ar y cyd. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau’r arfarniad:** | **Gorffennaf 2010** |
| **Arwyddwyd:**<br>**(Pennaeth)** | **H. L. N. Jones** |